Y Gwir Anrh/Rt Hon Carwyn Jones AC/AM
Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Ein cyf/Our ref: FM/01029/10

Dyfed Edwards a Brian Jones
Cyngor Gwynedd
Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

11 Awst 2010

Annwyl Dyfed, Brian

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 13 Gorffennaf 2010 am ddyfodol Cymorth – sef y gronfa i gefnogi plant a phobl ifanc.

Hoffwn eich sicrhau nad ydym am ddiddymu'r cyllid a roddir o dan Cymorth, er y bydd y trafodaethau ehangach ar y gyllideb yn dylanwadu ar ein penderfyniadau ariannu o'r flwyddyn nesaf ymlaen. Os ydym am roi arweiniad cenedlaethol o ran ymateb i anghenion teuluoedd, rhaid i ni gadw digon o hyblygrwydd wrth ymdrin â'r grantiau craidd ar gyfer helpu plant a theuluoedd. Er mwyn gwneud hyn rydym wedi penderfynu peidio â throsglwyddo Cymorth i'r Grant Cynnal Refeniw.

Rydym yn cydnabod cyfraniad gwerthfawr y Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc at reoli'r gwaith o gyflenwi prosiectau ar gyfer teuluoedd. O'r herwydd, byddwn yn trosglwyddo'r elfen honno yn Cymorth sydd ar hyn o bryd yn helpu i dalu costau gweithgareddau'r Partneriaethau. Ein disgwyl yw y bydd yr arian hwn yn parhau ar gael i gefnogi gwaith pwysig Cydgysylltwyr y Partneriaethau a'u timau o ran cynllunio darpariaeth ar lefel leol. Bydd swyddogion yn cysylltu â'r Cydgysylltwyr i drafod y ffordd ymlaen.

Ni fydd arian yn cael ei dynnu oddi wrth y bobl sydd â'r angen mwyaf amdano. Nid ydym yn bwriadu cyfeirio cyllid i ffwrdd oddi wrth deuluoedd. Yn hytrach, rhaid sicrhau ein bod yn dod o hyd i'r ffordd orau o dargedu'r arian at y rheiny sydd ei angen, gan ei gwneud yn haws i brosiectau llwyddiannus – gan gynnwys prosiectau cydweithredol ar draws y sectorau – gael arian.

Os bydd prosiect a ariennir gan Cymorth yn cael effaith wirioneddol lesol ar deuluoedd, rydym yn awyddus i fanteisio ar, a meithrin, y llwyddiant hwnnw. Ond rydym hefyd yn gwybod nad yw rhai prosiectau wedi bod mor llwyddiannus â hynny. Serch hyn, rydym yn sensitif i'r sefyllfa a byddem am reoli newidiadau i'r cyllid mewn modd sy'n sicrhau bod unrhyw ostyngiad yn cael cyn lleied o effaith â phosibl ar y prosiectau hynny.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Ffacs * Fax 029 2089 8198
ps.firstMinister@wales.gsi.gov.uk

Dros y misoedd nesaf, byddwn yn datblygu fframwaith y rhaglen grant sengl a bydd y trafodaethau â'n partneriaid mewn awdurdodau lleol, y sector gwirfoddol a rhanddeiliaid eraill ynghylch pa ddull gweithredu sydd fwyaf priodol yn rhan hollbwysig o'r broses honno.

Rwy'n deall bod trefniadau ar y gweill i'r Dirprwy Weinidog dros Blant, y mae cyllid Cymorth yn rhan o'i bortffolio, ymweld â Gwasanaethau Plant Cyngor Gwynedd ar 16 Medi. Bydd hefyd yn bresennol yn Seminar Tlodi Plant Gwynedd ar 8 Tachwedd.

Rwy'n ffyddiog y bydd y trafodaethau'n symud yn eu blaen mewn modd positif a chydweithredol.

Yn Gywir

**Carwyn Jones**

cc. Darren Griffiths.
Cyng. Brian Jones.